

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos
Wener, 25 Mai, 2012 yn y Llyfrgell, Plas y Brenin, Capel Curig**

Presennol: Presennol: Iolo (IPR) – yn y Gadair, Sian (SS), Gareth (GR), Maldwyn (MPR), Anita (AD).

Ymddiheuriadau: Arwel, Alwen, Dai, Guto, Iolo, John, Marion, Rhys.

1.	CADEIRYDD	Gweithredu
	Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cytunwyd y dylai IPR gadeirio'r cyfarfod	IPR
2.	<p>COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed o Ionawr 2012</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Eitem 2 – Materion yn codi o'r cyfarfod blynyddol – Fforwm Aelodau</u></p> <p>Yn unol â chais y pwyllgor roedd SS wedi gwneud gwaith ymchwil i beth fyddai angen ei wneud i sefydlu fforwm i aelodau a chyflwynodd papur yn amlinellu'r hyn oedd wedi ei ddarganfod ar ôl cynnal trafodaethau hefo datblygwyr yn y maes cyfrifiadurol ynglŷn â'r gost a champau ynghlwm a'u sefydlu.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth, penderfyniad y pwyllgor oedd er bod y gweplyfr yn cwrdd â rhai o'r gofynion tu ôl i'r syniad o gael fforwm, roedd anfanteision sylweddol hefyd ac felly roedd achos cryf i symud ymlaen i sefydlu fforwm. Yn sgil hynny dylid symud ymlaen ar y llinellau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylid sefydlu'r fforwm i aelodau gyda mynediad iddo trwy gyfrinair o safle We'r clwb • Gofyn i SS drafod hefo'r datblygwr y posibilrwydd o sefydlu'r fforwm a'i awdurdodi i symud ymlaen hefo hyn cyn belled â bod y costau sefydlu yn llai na £300. Os bydd y costau yn mynd dros y ffigwr hwn dylai ddod â'r mater yn ôl i'r pwyllgor. • Dylai SS/datblygwyr hefyd drafod y datblygiad hefo IaG. • IPR i gysylltu hefo IaG i'w ddiweddarau ar y sefyllfa gan nodi na fydd disgwyl iddo ysgwyddo unrhyw faich ychwanegol wrth sefydlu'r fforwm • Dylid cymryd y cyfle i gael demo o'r fforwm yng nghyfarfod blynyddol y clwb ym mis Tachwedd • Bod SS yn gweithredu fel cymedrolwr i'r fforwm ac y dylid gofyn hefyd i AR a MH os byddent yn barod i'w chynorthwyo • Awdurdodi SS i gytuno ar sefydlu enw'r parth ar gyfer y fforwm • Bod y fforwm yn cael ei sefydlu am gyfnod arbrofol. Os darganfyddid ar ôl cyfnod o 12 mis nad oedd yr aelodau yn gwneud defnydd helaeth o'r fforwm yna dylid ei dirwyn i ben 	<p>SS</p> <p>SS IPR</p> <p>SS</p> <p>SS</p> <p>SS</p>
3	<p>CAIS GAN MARI GWENT</p> <p>Adroddwyd bod Mari Gwent (merch Llew) wedi cysylltu â'r clwb yn cyfeirio at y teimladau cryf oedd gan Llew ynglŷn â'r ddiffyg ymwybyddiaeth ymysg hyfforddwy'r ym Mhlas y Brenin am ystyr enwau llwybrau, mynyddoedd ac o'r iaith Gymraeg. Roedd wedi gwneud cyflwyniad yno unwaith ac wedi cael ymateb positif ond ni bu llawer o ddilyniant er mawr siom iddo.</p> <p>Roedd Mari yn awyddus i ail-afael yn hyn a pharhau hefo gweledigaeth ei thad fel cof amdano. Roedd yn gofyn i'r pwyllgor ei chefnogi yn hyn o beth. Roedd hefyd</p>	

	<p>am gysylltu hefo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Menter Iaith Conwy i geisio cefnogaeth.</p> <p>Penderfynodd y pwyllgor eu bod yn gefnogol i'r hyn oedd gan Mari dan sylw ac y byddai'n barod i ystyried unrhyw gais am gefnogaeth ymarferol y byddai ei angen wrth i'w chynlluniau ddod yn gliriach. Awgrymwyd hefyd ei bod yn cysylltu â Phartneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogion lleol CMP i weld os byddent yn barod i'w chefnogi</p>	
4.	<p>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL – DARLITH FLYNYDDOL CMC</p> <p>Nodwyd fod y pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol wedi cefnogi noddi darlith flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Byddai'r ddarlith yn ymwneud â'r meysydd gweithgareddau awyr agored neu amgylcheddol. Y bwriad fyddai i gynnal darlith o'r fath yn Eisteddfod Genedlaethol 2013 yn Ninbych fel arbrawf.</p> <p>Roedd SS wedi cysylltu â threfnwyr yr eisteddfod ac wedi dod i'r casgliad mai Pabell y Cymdeithasau fyddai'r lle mwyaf addas i gynnal darlith o'r fath ac y byddai rhaglen ar gyfer y babell hon yn cael ei llunio yn ystod Medi 2012.</p> <p>Penderfynwyd symud ymlaen i drefnu darlith y clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych gan awdurdodi SS i wneud y trefniadau angenrheidiol. Awgrymwyd y byddai dydd Mercher yn ddiwrnod addas i gael slot ym Mhabell y Cymdeithasau ac y dylid gofyn i John Parry os byddai'n fodlon rhoi'r ddarlith gyntaf. Arbrawf fyddai hyn ac os yn llwyddiannus dylid ystyried wedyn ei sefydlu fel digwyddiad rheolaidd yn rhaglen yr eisteddfod</p>	SS
5	<p>CYFANSODDIAD Y CLWB</p> <p>IPR yn adrodd ei fod wedi derbyn gan y CMP awgrym o gymal mewn perthynas â chael trêfn o ddiarddel aelod y gallai'r clwb ei gynnwys yn y cyfansoddiad os dymuna.</p> <p>Penderfynwyd bod y cymal presennol yng nghyfansoddiad y clwb yn addas</p> <p>Aelodaeth y Pwyllgor - IPR yn adrodd y byddai angen ystyried aelodaeth y pwyllgor am y flwyddyn nesaf yn y cyfarfod nesaf.</p>	IPR
6	<p>SWYDDI - YSGRIFENNYDD GWEITHGAREDDAU Ac IS-GADEIRYDD</p> <p>Cadarnhaodd MPR oherwydd pwysau gwaith ei fod yn dal i ddymuno rhoi'r gorau i'r swydd erbyn y cyfarfod blynyddol nesaf. Rhoddwyd hysbysiad o hyn yn y llythyr a anfonwyd allan i'r holl aelodau ym mis Mawrth ond ni chafwyd unrhyw ymateb. Hefyd mae tymor y Cadeirydd presennol yn dirwyn i ben ym mis Tachwedd a gyda'r Is-gadeirydd yn symud i'r gadair bydd hefyd angen chwilio am Is-gadeirydd newydd.</p> <p>Penderfynwyd y dylid ystyried hyn yn y cyfarfod ym mis Medi a hefyd dylai'r swyddogion edrych ar y swydd Ysgrifennydd Gweithgareddau i weld os oes angen ei hailwampio cyn cael unigolyn newydd i'r swydd.</p>	
7	<p>CYFARFOD BLYNYDDOL 2012</p> <p>Penderfynwyd y dylid cynnal y cyfarfod blynyddol eleni ar nos Sadwrn 17 Tachwedd 2012 ym Mhlas y Brenin os ar gael. Dylid gofyn i Aneurin Phillips os byddai'n fodlon bod yn ŵr gwadd ar y noson.</p>	IPR
8	<p>RHAGLEN HYFFORDDIANT 2012</p> <p>Ystyriwyd y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â gweithgareddau hyfforddi'r clwb am eleni</p> <p>Nodwyd y canlynol</p> <p>Cwrs Cymorth Cyntaf ar y Mynyddoedd - JP trwy'r Bartneriaeth yn trefnu cwrs</p>	JP

	<p>cymorth cyntaf REC (Rescue Emergency Care) trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer 20 a 21 Hydref yng Nghanolfan Rhyd Ddu.</p> <p>Crybwyllwyd eisoes y syniad o gael diwrnod o gyflwyniad i ddringo ond teimlwyd gan fod yna weithgareddau dringo ar gyfer dechreuwyr eisoes ar raglen weithgareddau'r clwb nad oedd diben datblygu hyn yn bellach</p> <p>Dylid anelu i geisio rhoi hyfforddiant map a chwmpawd. Cyfeiriodd AD at y National Navigation Award Scheme a chytunodd i yrru manylion at MPR. Hefyd cyfeiriwyd at y ffaith bod Mair Tomos yn cynnal cyrisau "navigation". MPR i edrych i mewn i hyn</p>	AD/MPR
8.	<p>OFFER Gan nad oedd AR yn bresennol ni chafwyd unrhyw adroddiad</p>	
9.	<p>CAFFIS GWLEDIG Cytunwyd gohirio ystyried y r eitem yma tan y cyfarfod nesa ym mis Medi</p>	
10.	<p>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG Adroddwyd nad oedd unrhyw beth penodol i'w adrodd.</p>	
11.	<p>PARTNERIAETH AWYR AGORED Adroddwyd nad oedd unrhyw beth penodol i'w adrodd.</p>	
12.	<p>RHAGLEN GWEITHGAREDD NESAF Y CLWB. Nodwyd bod MPR yn gweithio ar raglen o weithgareddau ar gyfer y clwb am y cyfnod o ddechrau Gorffennaf i fis Tachwedd 2012. Mae nifer o fylchau yn y rhaglen ac mae angen derbyn awgrymiadau am deithiau mor fuan â phosib.</p> <p>Nodwyd y canlynol hefyd Taith yn ardal Capel Curig ar y 17eg o Dachwedd i gyd-fynd a'r cyfarfod blynyddol ym Mhlas y Brenin Noson gymdeithasol ar nos Sadwrn 13 Hydref yn ardal Llanrwst. SS i drefnu a thaith yn yr ardal ar yr un diwrnod Gofyn i AR gysylltu â DR i weld beth yw'r sefyllfa hefo teithiau'r de ar y rhaglen</p>	MPR
13	<p>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR Bydd y cyfarfod nesaf y pwyllgor yn cael ei gynnal ar nos Sadwrn, 22 Medi yn Hostel Dan y Wenallt ger Talybont yn ystod y penwythnos o weithgareddau gan y clwb ar y Fannau Brycheiniog.</p>	IPR